**Y PWYLLGOR BUSNES**

**ADRODDIAD I'R CYNULLIAD AR GYNIGION I NEWID RHEOLAU SEFYDLOG Y CYNULLIAD YN UNOL Â RHEOL SEFYDLOG 26.1**

Ar 12 a 13 Medi 2000, bu'r Pwyllgor Busnes yn ystyried cynigion i wella Rheolau Sefydlog y Cynulliad.

Mae holl Aelodau'r Pwyllgor wedi cytuno ar y cynigion isod, ac eithrio Gwelliant 1, ac fe'u hargymhellir i'r Cynulliad. Nodir newidiadau drafftio manwl i'r Rheolau Sefydlog mewn Cynigion a gyflwynwyd gyda'r adroddiad hwn.

**Rheol Sefydlog 6.5 (Gwelliant 1)**

Mae'r Pwyllgor Busnes – ac eithrio Rheolwr Busnes Plaid Cymru – yn credu na ddylai Aelodau gael cyflwyno gwelliannau i gynigion i'w hystyried mewn dadl ar adroddiadau pwyllgorau pwnc.

**Gan nad oedd cefnogaeth unfrydol i'r cynnig hwn, gofynnodd y Pwyllgor i'r Trefnydd gyflwyno cynnig ar wahân.**

**Rheol Sefydlog 6.37 (Gwelliant 2)**

Cyn i'r Cynulliad dorri ar gyfer wythnosau'r haf, gwelwyd Dirprwy Ysgrifennydd, ar un achlysur, yn ymateb i ddadl fer. Ni chaniateir hyn ar hyn o bryd gan y Rheolau Sefydlog. Yr oedd y Pwyllgor o'r farn mai ar ôl cael caniatâd y Llywydd y dylid gwneud hyn. Mae'r newid manwl yn cyfeirio at "Aelod" gan na chaiff Dirprwy Ysgrifenyddion eu cydnabod yn y Rheolau Sefydlog.

**Rheol Sefydlog 22.58 (Gwelliant 3)**

Bu'r Pwyllgor Busnes yn adolygu Rhan 7 o Reol Sefydlog 22 sy'n datgan y caiff Aelodau, sy'n llwyddiannus mewn pleidlais, osod cynnig gerbron yn gofyn i Ysgrifennydd Cynulliad ddod â darn o is-ddeddfwriaeth yn ei flaen. O brofiad, mae gofyn i Aelod enwi testun cyn iddo gael ei gynnwys yn y bleidlais wedi llesteirio cynnydd mewn perthynas â phennu cyfle i ddeddfu. Maent yn credu, felly, y dylid tynnu'r ddarpariaeth hon yn ôl o'r rheol sefydlog.

**Mae Aelodau'r Pwyllgor Busnes yn argymell yn unfrydol y dylid cymeradwyo gwelliannau 2 a 3 ac felly maent wedi'u cynnwys ar un cynnig er mwyn cael cymeradwyaeth y Cynulliad.**

**Pwyllgor y T (Rheol Sefydlog Newydd a gwelliannau i RhS 6; 8 ac 19)**

Mae gwelliannau (4-7) yn yr Atodiad yn darparu ar gyfer creu Pwyllgor y T ag iddo gyfansoddiad ffurfiol, ynghyd â'r darpariaethau ariannol cysylltiedig; yn ogystal â darpariaethau i Aelod o Bwyllgor y T newydd ateb cwesiynau llafar. Maent yn cynnwys Rheol Sefydlog 28 (gwelliant 3) newydd; a newidiadau i reolau sefydlog 6 (gwelliant 5); 9 (gewlliant 6) ac 19 (gwelliant 7).

Er mwyn cyfeirio atynt yn hwylus a'u gwneud yn haws i'w deall, mae testun llawn rheolau sefydlog 6 ac 19 wedi'u hatgynhyrchu, ynghyd â nodiadau esboniadol. Mae'r diwygiadau a gynigir wedi'u tanlinellu.

Mae'r cynnig cysylltiedig ond yn cynnwys y gwelliannau manwl i'r rheolau sefydlog.

**Argymhellir y cynigion yn unfrydol gan y Pwyllgor Busnes**.

Jane Davidson, Dirprwy Lywydd

Cadeirydd, Pwyllgor Busnes

Medi 2000

**ATODIAD A**

**NODYN ESBONIADOL AR Y RHEOL SEFYDLOG A GYNIGIR AR GYFER PWYLLGOR Y TY**

Pwrpas y rheol sefydlog a gynigir yw sefydlu Pwyllgor y T ffurfiol o dan reolau sefydlog i roi cyngor i'r Cynulliad, y Llywydd a'r Clerc mewn perthynas â'r gwasanaethau a ddarperir gan Swyddfa'r Llywydd. Byddai'r rheol sefydlog a gynigir yn darparu fel a ganlyn:

**Paragraff 1** – cylch gwaith Pwyllgor y T o safbwynt rhoi cyngor i'r Cynulliad, y Llywydd a Chlerc y Cynulliad. Mae cylch gwaith y Pwyllgor yn cynnwys y materion a nodir yn a, b, c, d ac e o baragraff 1, ond nid yw'n cynnwys materion sy'n rhan o gylch gwaith y Pwyllgor Safonau, y Pwyllgor Busnes na materion sy'n ymwneud â chynnal cyfarfodydd llawn a chyfarfodydd pwyllgor, sy'n fater i'r Llywydd.

**Paragraffau 2-4** – mae'r rhain yn nodi aelodaeth y Pwyllgor a fyddai, fel y Pwyllgor Busnes, yn cynnwys un aelod o bob un o bleidiau gwleidyddol y Cynulliad ynghyd â chadeirydd. Byddai'r aelodau hyn yn cael eu hethol gan y Cynulliad.

Pe na bai'r Llywydd na'r Dirprwy Lywydd ymhlith y rhai a gâi eu hethol i'r Pwyllgor, byddai ganddynt yr hawl i fynychu cyfarfodydd y Pwyllgor.

Mae'r paragraffau hyn hefyd yn darparu ar gyfer absenoldeb aelod neu'r cadeirydd o'r Pwyllgor.

**Paragraffau 5-7** – mae'r rhain yn darparu ar gyfer amlder cyfarfodydd y Pwyllgor ac; y dylai cyfarfodydd gael eu cynnal yn breifat.

Gwneir darpariaeth hefyd ar gyfer penodi aelod o'r Pwyllgor i ateb cwestiynau llafar a gyflwynwyd o dan y Rheol Sefydlog 6 newydd.

**RHEOL SEFYDLOG A GYNIGIR AR GYFER PWYLLGOR TY (GWELLIANT 4)**

**Pwyllgor y T**

Teitl a Chylch Gwaith

1 Bydd yna Bwyllgor T a fydd yn rhoi cyngor i’r Llywydd, y Cynulliad a’r Clerc ar y canlynol:-

a. gweinyddu Swyddfa’r Llywydd heb gynnwys y materion canlynol sy’n ymwneud â’r staff:-

   i. eu hamodau a’u telerau gwaith;
   ii. eu strwythur a’u rheolaeth;
   iii. trefniadau a wneir o dan adran 63 o Ddeddf Llywodraeth Cymru ar gyfer cyflawni’r swyddogaethau sydd wedi’u dirprwyo i’r staff;

b. arfer swyddogaethau Swyddfa’r Llywydd gan gynnwys y gwasanaethau, y cyfleusterau a’r llety sy’n cael eu darparu ar gyfer yr Aelodau, eu staff cymorth a’r cyhoedd;

ond heb gynnwys materion:-

   i. sy’n ymwneud â swyddogaeth y Llywydd wrth benderfynu a ddylai mater gael ei gyfeirio at y Pwyllgor Safonau;
   ii. sy’n ymwneud â chynnal cyfarfodydd llawn a phwyllgorau’r Cynulliad;
   iii. sydd o fewn cyfrifoldeb y Pwyllgor Busnes;

c. cyflogau, lwfansau a phensiynau’r Aelodau;

ch. cynnwys canllawiau sydd i’w cyhoeddi mewn perthynas â’r materion a nodir yn (a)-(c) uchod;

d. cyllideb Swyddfa’r Llywydd.

Aelodaeth

2. Bydd y Cynulliad yn ethol i’r Pwyllgor un aelod o bob grp gwleidyddol yn y Cynulliad, ynghyd ag un aelod arall i’w gadeirio. Os caiff aelod heblaw’r Llywydd ei ethol i gadeirio’r Pwyllgor, bydd gan y Llywydd hawl i fod yn bresennol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor. Os caiff aelod heblaw’r Dirprwy Lywydd ei ethol i gadeirio’r Pwyllgor, bydd gan y Dirprwy Lywydd hawl i fod yn bresennol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor.

3. Gall aelod o’r Pwyllgor, ar ôl rhoi hysbysiad ymlaen llaw i’r Cadeirydd, gael ei gynrychioli yn un o gyfarfodydd y Pwyllgor gan Aelod arall a enwebir o blith yr un grp gwleidyddol y mae’r Aelod hwnnw’n perthyn iddo. Caiff yr Aelod a enwebir gymryd rhan yng nghyfarfod y Pwyllgor fel pe bai’n aelod o’r Pwyllgor.

4. Caiff aelod o’r Pwyllgor gadeirio un o gyfarfodydd y Pwyllgor yn absenoldeb y Cadeirydd. Penodir yr aelod hwnnw gan y Pwyllgor naill ai yn y cyfarfod o dan sylw neu mewn cyfarfod blaenorol.

Cyfarfodydd

5. Bydd y Pwyllgor yn cyfarfod o leiaf unwaith ym mhob pedair wythnos y bydd y Cynulliad yn cynnal cyfarfodydd llawn, oni bai bod y Pwyllgor yn penderfynu fel arall. Caiff y pwyllgor gytuno i gynnal cyfarfodydd ychwanegol.

6. Bydd y Pwyllgor yn cyfarfod yn breifat ond caiff cofnodion y cyfarfodydd eu cyhoeddi chwe wythnos ar ôl pob cyfarfod.

7. Enwebir aelod o’r Pwyllgor i ateb cwestiynau i’w hateb ar lafar yn un o gyfarfodydd llawn y Cynulliad yn unol â pharagraff 6.3 (iv).

-

-

-

-

**ATODIAD B**

**NODIADAU ESBONIADOL AR Y GWELLIANNAU A GYNIGIR I REOL SEFYDLOG 6 – GWAITH Y CYNULLIAD MEWN CYFARFODYDD LLAWN**

Pwrpas y gwelliannau a gynigir yw caniatáu i Aelod o Bwyllgor y T gael ei holi am waith y Pwyllgor. Mae’r newidiadau a gynigir yn darparu ar gyfer:

**Paragraff 6.3(iv)** - caniatáu amser i aelod o Bwyllgor y T ateb cwestiynau ar lafar o leiaf unwaith bob 4 wythnos y ceir cyfarfod llawn o’r Cynulliad.

**Paragraff 6.26a** – galluogi Aelodau i gyflwyno cwestiynau am waith y Pwyllgor i’w hateb ar lafar gan aelod o Bwyllgor y T.

**Paragraff 6.28** – ychwanegiad i ymdrin â chwestiynau llafar i’r aelod o Bwyllgor y T i gyfyngu unrhyw aelod i 2 gwestiwn.

**Paragraff 6.30** – ychwanegiad i’w gwneud yn ofynnol i’r Llywydd geisio cydbwyso nifer y cwestiynau a gyflwynir i’r aelod o Bwyllgor y T a’r ffaith bod angen i’r aelod ateb cymaint o gwestiynau â phosibl.

**Paragraff 6.33** – gwelliant i gynnwys cwestiynau ysgrifenedig i Bwyllgor y T.

-

-

**RHEOL SEFYDLOG 6 - Busnes y Cynulliad yn y Cyfarfodydd Llawn**

**Cyfarfodydd Llawn**

6.1 Cynhelir cyfarfodydd llawn y Cynulliad yn gyhoeddus; a chaniateir mynediad ar gyfer darlledu yn unol â'r trefniadau y bydd y Cynulliad yn cytuno arnynt o bryd i'w gilydd.

6.2 Bydd y Cynulliad yn cyfarfod yn llawn yn unol â phenderfyniadau a wneir o dan baragraff 5.4. Os na fydd cyfarfod wedi'i drefnu ar gyfer diwrnod penodol gall y Llywydd, ar gais y Prif Ysgrifennydd, gynnull y Cynulliad i ystyried mater brys sydd o bwys cyhoeddus.

6.3 Trefnir bod amser ar gael mewn cyfarfodydd llawn:

(i) i'r Prif Ysgrifennydd ateb cwestiynau sydd i'w hateb ar lafar unwaith ym mhob wythnos y bydd cyfarfod llawn o'r Cynulliad, a hynny am o leiaf 15 munud;

(ii) i'r Ysgrifennydd Cyllid ac unrhyw Ysgrifennydd Cynulliad (gan gynnwys lle bo'n briodol y Prif Ysgrifennydd) y clustnodwyd maes atebolrwydd iddo ef neu iddi hi o dan A.56(3) o'r Ddeddf.ateb cwestiynau sydd i'w hateb ar lafar o leiaf unwaith ym mhob pedair wythnos y bydd cyfarfod llawn o'r Cynulliad, a hynny am o leiaf 15 munud

(iii) i un Aelod, heblaw Ysgrifennydd Cynulliad, gynnig pwnc bob wythnos i'r Cynulliad ei ystyried mewn dadl fer cyn dirwyn cyfarfod llawn i ben.

"(iv) i un Aelod o Bwyllgor y T ateb cwestiynau sydd i'w hateb ar lafar o leiaf unwaith, ac am o leiaf bymtheng munud, ym mhob pedair wythnos y bydd y Cynulliad yn cynnal cyfarfodydd llawn."

6.3A Os nad yw'n rhesymol ymarferol i Ysgrifennydd Cynulliad, gan gynnwys y Prif Ysgrifennydd, ateb cwestiynau llafar ar ddiwrnod pan fydd yr Ysgrifennydd Cynulliad fel rheol yn gwneud hynny, gall Ysgrifennydd Cynulliad arall, gyda chydsyniad gan y Llywydd o flaen llaw, ateb cwestiynau ar ran yr Ysgrifennydd Cynulliad hwnnw.

6.4 Os cyflwynir cynnig o ddiffyg hyder yn y Llywydd, y Dirprwy neu'r Prif Ysgrifennydd, neu gynnig i geryddu un o Ysgrifenyddion y Cynulliad, a hynny gan o leiaf chwe Aelod, trefnir bod amser ar gael cyn gynted ag y bo modd er mwyn i'r cynnig gael ei ddadlau; a chynhelir y ddadl honno p'un bynnag cyn pen pum diwrnod gwaith ar ôl cyflwyno'r cynnig.

6.5 Trefnir bod amser ar gael ym mhob cyfnod o 12 mis ar gyfer y categorïau canlynol o fusnes y Cynulliad:

- dadl ar adroddiad blynyddol Prif Ysgrifennydd y Cynulliad
- dadleuon ar ddyrannu Cyllideb y Cynulliad
- dadleuon ar gynigion a wneir ar ran grwpiau gwleidyddol nad ydynt wedi'u cynrychioli yng Nghabinet y Cynulliad
- dadleuon ar adroddiadau a gyflwynir gan y pwyllgorau pwnc
- dadleuon ar adroddiadau a osodwyd gerbron y Cynulliad yn ystod y deuddeng mis blaenorol gan y Pwyllgor Archwilio
- dadl ar adroddiad blynyddol y Pwyllgor Safonau
- dadl gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar raglen ddeddfu'r Llywodraeth
- dadl ar yr adroddiad blynyddol ar y trefniadau cyfle cyfartal
- dadl ar yr adroddiad blynyddol ar y cynllun llywodraeth leol
- dadl ar yr adroddiad blynyddol ar gynllun y sector gwirfoddol

- dadl ar yr adroddiad blynyddol ar y cynllun datblygu cynaliadwy

- dadl ar drefniadau'r Cynulliad ar gyfer cydweithredu â byd busnes

- dadl ar faterion sy'n ymwneud â'r Undeb Ewropeaidd

- dadl ar adroddiadau blynyddol Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru a Chomisiynydd Gwasanaeth Iechyd Cymru

Rhaid i wyth cyfarfod llawn o leiaf yn y cyfnod o 12 mis gynnwys amser a ddarperir ar gyfer cynigion a wneir ar ran grwpiau gwleidyddol nad ydynt wedi'u cynrychioli yng Nghabinet y Cynulliad a chyn belled ag y bo modd, dosberthir y rhain yn unol â chynrychiolaeth pob grp yn y Cynulliad. Rhaid i chwe chyfarfod llawn o leiaf yn ystod y cyfnod gynnwys amser ar gyfer dadleuon ar adroddiadau a gyflwynir gan y pwyllgorau pwnc.

6.6 Bydd y Cynulliad yn sicrhau y trefnir bod amser ar gael ar gyfer ystyried adroddiadau'r Comisiwn Cyfleoedd Cyfartal, y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol a Chomisiwn Hawliau'r Anabl naill ai mewn cyfarfod llawn neu mewn pwyllgor.

Ar adegau o'r fath, gellir ystyried hefyd adroddiadau gan gyrff gwirfoddol yng Nghymru sy'n ymwneud â'r materion hyn.

**Hysbysiadau Busnes ar gyfer Cyfarfodydd Llawn**

6.7 Bydd y Llywydd yn cylchredeg hysbysiadau ymlaen llaw ynghylch busnes pob cyfarfod llawn, ynghyd â gwybodaeth arall am fusnes yn y dyfodol. Cyn belled ag y bo'n briodol o dan yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol, trefnir bod unrhyw ddogfennau sy'n ymwneud â busnes y cyfarfodydd llawn ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg; a threfnir bod copïau o'r dogfennau hynny ar gael i Ysgrifennydd Gwladol Cymru yr un pryd ag y byddant ar gael i'r Aelodau.

6.8 Bydd busnes y gellir ymdrin ag ef heb hysbysiad mewn unrhyw gyfarfod llawn yn cynnwys:

- cyflwyno Aelodau newydd;
- teyrngedau coffa i gyn-Aelodau ac eraill;
- datganiadau personol;
- datganiadau gan Ysgrifenyddion y Cynulliad;
- cynigion yngln â gweithdrefnau, neu bwyntiau trefn ynghylch dull cynnal y busnes.

6.9 Mewn unrhyw gyfarfod llawn, gall Aelod, ar ôl sicrhau caniatâd y Llywydd ymlaen llaw, gynnig y dylai'r Cynulliad ystyried mater brys penodol sydd o bwys cyhoeddus ar unwaith. Caiff caniatâd ei sicrhau yn unol â threfniadau a bennir gan y Llywydd. Bydd y Llywydd yn rhoi cyfle i Ysgrifennydd Cynulliad gyflwyno sylwadau ar y cais cyn dyfarnu arno. Os yw'r Llywydd yn fodlon bod y mater yn haeddu cael sylw'r Cynulliad ar unwaith, bydd ef neu hi yn cynnal pleidlais ar y cynnig (ac eithrio, os Aelod heblaw Ysgrifennydd Cynulliad sydd wedi gwneud y cynnig, bydd y Llywydd yn caniatáu i Ysgrifennydd Cynulliad ateb cyn cynnal pleidlais ar y cynnig). Os bydd y Cynulliad yn penderfynu ystyried y mater, bydd yn gwneud hynny yn ystod y cyfarfod hwnnw neu (os bydd y Llywydd yn penderfynu felly) yr un sy'n dilyn yn syth a chaiff yr amserlen ar gyfer busnes ei haddasu yn unol â hynny.

6.10 Gelwir busnes gan y Llywydd ac fe'i cymerir yn y drefn y mae'n ymddangos yn yr hysbysiad busnes; ond pan fydd eitem o fusnes yn cael ei galw gellir gwneud cynnig i'w gohirio tan yn nes ymlaen y diwrnod hwnnw neu ddiwrnod arall, a hynny naill ai gan yr Aelod sy'n gofalu amdani, neu yn achos busnes Cabinet y Cynulliad, gan un o Ysgrifenyddion y Cynulliad. Caiff pleidlais ar y cynnig i'w gohirio ei chynnal ar unwaith, ond ni chytunir ar y cyfryw ohiriad os bydd o leiaf 10 Aelod yn ei wrthwynebu.

**Trefn Busnes**

6.11 Ymdrinnir â busnes yn ôl yr angen yn y drefn ganlynol:

- Datganiadau gan y Llywydd
- Cyflwyno Aelodau newydd o'r Cynulliad
- Teyrngedau coffa
- Ethol Swyddogion ac aelodau pwyllgorau
- Datganiadau personol
- Cwestiynau i'w hateb ar lafar
- Datganiadau gan Ysgrifenyddion y Cynulliad
- Prif fusnes y cyfarfodydd llawn
- Dadleuon byr cyn dirwyn cyfarfodydd llawn i ben.

**Cynigion**

6.12 Ac eithrio cwestiynau llafar, datganiadau, cyflwyno Aelodau newydd, teyrngedau coffa, neu lle bo Aelod yn cynnig pwnc ar gyfer dadl fer o dan baragraff 6.35, bydd busnes mewn cyfarfodydd llawn yn mynd yn ei flaen ar sail y cynigion a wneir; ac oni bai bod y rheolau sefydlog yn darparu fel arall, caiff unrhyw gynnig o'r fath ei gyflwyno o leiaf 5 niwrnod gwaith cyn ei drafod. Gall unrhyw Aelod wneud cynnig a gyflwynir yn ôl y drefn hon.

6.12A Ni chaniateir cyflwyno unrhyw gynnig neu welliant sy'n cyfeirio at unrhyw ddogfen oni bai bod y ddogfen as gael i bob Aelod pryd y cyflwynir y cynnig neu cyn hynny. Ystyrir bod dogfen ar gael i bob Aelod os bydd Aelodau yn medru cael mynediad ati trwy gyfrwng electronig, neu os trefnwyd bod copi caled ar gael i'r Aelodau neu (lle bo maint y ddogfen yn golygu nad yw hi'n rhesymol ymarferol i sicrhau ei bod ar gael trwy ddulliau eraill) os yw copi wedi'i adneuo yn y Llyfrgell.

Bydd rhaid i Aelod sy'n cyflwyno cynnig neu welliant y mae'r paragraff hwn yn berthnasol iddo ddatgan a sicrhawyd bod dogfen y cyfeirir ati ar gael i'r Aelodau a sut y gwnaed hynny. Os yw'n hysbys i'r Llywydd fod cynnig neu welliant wedi ei gyflwyno yn groes i ofynion y paragraff hwn, ni fydd y Llywydd yn caniatáu iddo gael ei drafod nes bod y ddogfen wedi'i rhoi ar gael i bob Aelod a nes bydd amser pellach y mae'r Llywydd yn barnu ei fod yn briodol wedi mynd heibio.

6.13 Ac eithrio lle mae'r rheolau sefydlog yn darparu fel arall, gellir cynnig gwelliannau i unrhyw gynnig, ac fe'u cyflwynir o leiaf dri diwrnod gwaith cyn trafod y cynnig; ond gall y Llywydd, ar ôl rhoi sylw i unrhyw ganllawiau y gall y Cynulliad eu mabwysiadu:

(i) grwpio gwelliannau cysylltiedig a mynnu eu bod yn cael eu cynnig fel grp;

(ii) penderfynu ym mha drefn y dylid ymdrin â gwelliannau sy'n codi yn yr un lle yn y cynnig; a

(iii) gwrthod dewis gwelliant pan fydd ef neu hi o'r farn bod y dull priodol o gynnal busnes y Cynulliad yn ei gwneud yn briodol gwrthod.

6.14 Yn dibynnu ar baragraffau 6.17 a 6.18, ar ddiwedd y cyfnod a neilltuir ar gyfer unrhyw gynnig bydd y Llywydd yn gwahodd y Cynulliad i benderfynu ar unrhyw welliannau a gynigir ac ar y cynnig, oni bai bod unrhyw gynnig trefniadol ynghylch y cynnig hwnnw wedi'i gytuno.

**Cynigion Trefniadol**

6.15 Caiff cynigion trefniadol y flaenoriaeth dros fusnes arall. Gall y Llywydd ganiatáu i Aelod siarad yn gryno o blaid y cyfryw gynnig, ac i Aelod arall siarad yn gryno yn ei erbyn, ac yna bydd yn cynnal pleidlais ar y cynnig.

6.16 Gellir cynnig y materion canlynol mewn cynigion trefniadol:

- gohirio eitem o fusnes yn unol â pharagraff 6.10;
- cyfeirio mater at bwyllgor;
- cloi dadl yn unol â pharagraff 6.17;
- parhau, neu ohirio, dadl ar ôl i'r amser a neilltuwyd ar gyfer unrhyw eitem unigol o fusnes ddod i ben, yn unol â pharagraff 6.18; a

- y cyfryw faterion eraill ag sy'n briodol ym marn y Llywydd.

6.17 Ar unrhyw adeg ar ôl gwneud cynnig neu welliant, gall Aelod gynnig y dylid pleidleisio arno ar unwaith; ond ni fydd y Llywydd yn cynnal pleidlais ar y cynnig hwnnw (na fydd dadl yn ei gylch) ond os bydd o leiaf 10 Aelod yn mynegi eu cefnogaeth; ac os bydd ef neu hi yn fodlon na fyddai gwneud hynny yn camddefnyddio gweithdrefnau'r Cynulliad neu'n tarfu ar hawliau lleiafrifoedd yn y Cynulliad.

6.18 Ar ddiwedd y cyfnod a neilltuir ar gyfer unrhyw gynnig, gall Aelod gynnig y dylid caniatáu i'r ddadl ar y cynnig barhau am gyfnod penodol y diwrnod hwnnw neu ei gohirio tan ddiwrnod arall; ond ni fydd y Llywydd yn cynnal pleidlais ar y cynnig hwnnw (na fydd dadl yn ei gylch) ond os bydd o leiaf 10 Aelod yn mynegi eu cefnogaeth; ac os bydd ef neu hi'n fodlon na fyddai gwneud hynny yn camddefnyddio gweithdrefnau'r Cynulliad nac yn achosi gormod o oedi.

**Pleidleisio**

6.19 Bydd yr Aelodau yn bwrw eu pleidleisiau yn unigol ac yn bersonol (ond ni fydd rhaid iddynt bleidleisio).

6.20 Bydd y Llywydd yn cynnal pleidlais ar gynnig neu welliant trwy:

(i) gyfrwng electronig; neu yn niffyg hynny

(ii) alw cofrestr o'r Aelodau yn nhrefn yr wyddor.

6.21 Os bydd o leiaf 3 Aelod, cyn i bleidlais gael ei chynnal, yn gofyn am hynny, cenir y gloch. Os bydd pleidleisiau yn cael eu cynnal un yn syth ar ôl y llall, ni fydd rhaid canu'r gloch fwy nag unwaith. Ar ôl ysbaid o bum munud, cymerir y bleidlais neu'r pleidleisiau. Bydd y Llywydd yn datgan bod y bleidlais wedi cau ac yn cyhoeddi'r canlyniad. Cynhwysir enwau'r Aelodau sy'n pleidleisio, gan gynnwys y rhai sy'n nodi eu bod yn ymatal, yn yr adroddiadau ar drafodion llawn y Cynulliad. Sicrheir hefyd y bydd adroddiad o'r bleidlais ar gael cyn diwedd y sesiwn y cymerwyd y bleidlais ynddi.

6.22 Ni fydd pleidlais yn ddilys oni fydd o leiaf 10 Aelod yn cymryd rhan. Os bydd llai na 10 Aelod yn cymryd rhan, cedwir y busnes hwnnw tan y cyfarfod llawn nesaf ac aiff y Cynulliad ymlaen i'r eitem nesaf o fusnes. Wrth ddyfarnu nifer yr Aelodau sy'n cymryd rhan mewn pleidlais, cymerir bod y Llywydd a'r rhai sy'n nodi eu bod yn ymatal yn cymryd rhan.

**Datganiadau Personol**

6.24 Gall y Llywydd ganiatáu i Aelod wneud datganiad personol, ar ôl rhoi hysbysiad ysgrifenedig iddo ef neu iddi hi.

6.25 Bydd datganiad personol yn gryno, yn ffeithiol ac ni fydd yn destun dadl.

**Cwestiynau i'w Hateb ar Lafar**

6.26 Gall Aelodau gyflwyno cwestiynau i'w hateb ar lafar i unrhyw un o Ysgrifenyddion y Cynulliad heblaw'r Trefnydd, a hynny ynghylch unrhyw fater sy'n ymwneud â'u cyfrifoldebau.

6.26A Caiff Aelodau gyflwyno cwestiynau i'w hateb ar lafar gan aelod o Bwyllgor y T ynghylch unrhyw fater sydd o fewn cylch gwaith y Pwyllgor o dan Reol Sefydlog 28.

6.27 Cyflwynir cwestiynau i'r Swyddfa Gyflwyno o leiaf bum diwrnod gwaith ond nid mwy na 10 diwrnod gwaith cyn bod rhaid eu hateb.

6.28 Derbynnir cwestiynau yn ôl doethineb y Llywydd, a fydd yn rhoi sylw i unrhyw ganllawiau y gall y Cynulliad eu mabwysiadu; ond ni chaiff pob aelod gyflwyno mwy na dau gwestiwn (neu, yn achos cwestiynau i'r Prif Ysgrifennydd o dan baragraff 6.3(i) neu i aelod o Bwyllgor y T o dan baragraff 6.3(iv) (ddim mwy nag un cwestiwn) i'w hateb ar lafar gan Ysgrifennydd Cynulliad penodol mewn unrhyw gyfarfod llawn.

6.29 Penderfynir ar drefn cwestiynau i'w hateb ar lafar fel a ganlyn:-

(i) yn achos cwestiynau a dderbynnir rhwng 9am a 4pm ar y diwrnod cyntaf y gellir eu cyflwyno, drwy hapddull;

(ii) yn achos cwestiynau a dderbynnir ar ôl 4pm ar y diwrnod cyntaf y gellir eu cyflwyno, yn y drefn y deuant i law.

6.30 Bydd y Llywydd yn galw ar yr Aelod sy'n gofyn y cwestiwn i ofyn cwestiwn atodol, ac wedyn caiff alw ar Aelodau eraill i ofyn cwestiynau llafar atodol cysylltiedig. Wrth alw ar Aelodau i ofyn cwestiynau atodol, bydd y Llywydd yn ceisio pwyso'r angen i archwilio mater yn drylwyr â'r angen i Ysgrifenyddion y Cynulliad ac aelod o Bwyllgor y T ateb cynifer o gwestiynau a gyflwynir â phosibl. Pan fydd y Llywydd o'r farn bod digon o drafod wedi bod ar y mater a godwyd mewn cwestiwn i'w ateb ar lafar, bydd ef neu hi yn galw'r cwestiwn nesaf.

6.31 Ar ddiwedd y cyfnod a neilltuir ar gyfer cwestiynau i'w hateb ar lafar, neu ar unrhyw adeg arall a benderfynir gan y Llywydd, gall y Llywydd alw ar Aelod i ofyn cwestiwn na roddwyd rhybudd amdano o dan baragraff 6.27 -

(i) os rhoddwyd rhybudd o ddwy awr o leiaf ymlaen llaw i'r Llywydd a'r Ysgrifennydd Cynulliad o dan sylw, a

(ii) os yw'r Llywydd wedi'i fodloni bod y cwestiwn yn un brys ac yn ymwneud â mater o bwys cyhoeddus.

Ni fydd y paragraff hwn yn gymwys i gwestiynau sydd i'w hateb ar lafar gan aelod o Bwyllgor y T.

6.32 Pan na chyrhaeddir unrhyw gwestiwn sydd i'w ateb ar lafar, bydd yr Aelod yn cael ateb ysgrifenedig ar yr un diwrnod. Caiff yr ateb ysgrifenedig ei gofnodi yn yr adroddiad o'r trafodion llawn.

**Cwestiynau i'w Hateb yn Ysgrifenedig**

6.33 Gall Aelodau gyflwyno cwestiynau i'w hateb yn ysgrifenedig i unrhyw un o Ysgrifenyddion y Cynulliad, a hynny ynghylch unrhyw fater sy'n ymwneud â'i gyfrifoldebau ef neu ei chyfrifoldebau hi neu i Bwyllgor y T ynghylch ei gyfrifoldebau yntau.

6.34 Bydd yr Aelodau yn darparu testun cwestiynau i'r Swyddfa Gyflwyno o leiaf bum diwrnod gwaith cyn bod rhaid eu hateb. Derbynnir cwestiynau yn ôl doethineb y Llywydd, a fydd yn rhoi sylw i unrhyw ganllawiau y gall y Cynulliad eu mabwysiadu. Cyhoeddir cwestiynau a dderbynnir yn yr hysbysiad busnes ar gyfer y diwrnod y mae'n rhaid eu hateb a chofnodir yr atebion yn yr adroddiad o'r trafodion llawn.

6.34(A) Caiff Aelodau gyflwyno cwestiynau sydd i'w hateb yn ysgrifenedig gan gadeirydd Pwyllgor y T ynghylch unrhyw fater sydd o fewn cylch gwaith y Pwyllgor o dan Reol Sefydlog 28.

**Dadleuon Byr ynghylch Pynciau a Gynigir gan Aelodau**

6.35 Yn ystod pob wythnos y bydd cyfarfod llawn o'r Cynulliad, bydd y Llywydd yn tynnu enwau i benderfynu pa Aelod, heblaw un o Ysgrifenyddion y Cynulliad, a all gynnig pwnc ar gyfer dadl yn y cyfryw wythnos ganlynol.

6.36 Bydd yr Aelod y tynnwyd ei enw yn hysbysu'r Llywydd o'r pwnc o leiaf bum niwrnod gwaith cyn y ddadl yn ei gylch.

6.37 Yn y ddadl:

(i) gall yr Aelod y tynnwyd ei enw siarad;

(ii) gall un o Ysgrifenyddion y Cynulliad ymateb; a

(iii) ni all unrhyw Aelod arall siarad oni bai bod ganddo ef neu ganddi hi ganiatâd yr Aelod y tynnwyd ei enw neu oni chaniateir iddo ef neu iddi hi ymyrryd gan yr Ysgrifennydd Cynulliad sy'n ymateb.

**Datganiadau Barn Ysgrifenedig**

6.38 Gall unrhyw Aelod heblaw Ysgrifennydd Cynulliad gyflwyno datganiadau barn ysgrifenedig heb fod yn hwy na 100 o eiriau ar faterion sy'n effeithio ar Gymru; a gall y datganiadau hynny gael eu hategu, eu gwrthwynebu neu fel arall fod yn destun sylwadau ysgrifenedig gan unrhyw Aelod arall.

6.39 Os yw'r Llywydd o'r farn bod y cyfryw ddatganiadau ysgrifenedig yn ddilys, cânt eu cyhoeddi, ynghyd ag unrhyw ddatganiad o gefnogaeth neu wrthwynebiad a gyflwynwyd gan Aelodau eraill.

**Rheol Sefydlog 8 (Gwelliant 6)**

**Para 8.25A –** Diwygir y paragraff hwn i gynnwys Pwyllgor y T ymhlith y pwyllgorau hynny y gellid eu galw yn ystod Wythnosau Aelodau'r Cynulliad yn yr Etholaethau.

**ATODIAD C**

**NODYN ESBONIADOL AR Y GWELLIANNAU A GYNIGIR I REOL SEFYDLOG 19 – GWEITHDREFNAU ARIANNOL**

Pwrpas y gwelliannau a gynigir yw mabwysiadu'r trefniadau newydd a chael y Cynulliad i gymeradwyo cyllideb ar wahân ar gyfer Swyddfa'r Llywydd, a honno dan reolaeth y Clerc. Mae'r newidiadau a gynigir yn darparu ar gyfer:

**Paragraff 19.0** – y weithdrefn flynyddol ar gyfer ystyried y gyllideb sydd ei hangen ar Swyddfa'r Llywydd, cyflwyno'r gyllideb a'r cynnig sy'n gwahodd y Cynulliad i gymeradwyo'r gyllideb. Byddai'r weithdrefn hon ar wahân i'r weithdrefn ar gyfer pennu cyllideb y Weinyddiaeth sy'n cael ei nodi yn y paragraffau dilynol yn RhS 19.

**Paragraff 19.5A** – byddai'r paragraff hwn yn galluogi'r Cynulliad i ystyried cynnig i gynyddu lefel yr adnoddau sy'n cael eu dyrannu i Swyddfa'r Llywydd yn ystod blwyddyn arbennig.

**Paragraff 19.7A** – byddai'r paragraff hwn yn galluogi Clerc y Cynulliad, ar ôl ymgynghori â Phwyllgor y T, ac ar ôl hysbysu Ysgrifennydd Cyllid y Cynulliad, i drosglwyddo'r adnoddau o dan gwahanol benawdau'r prif grp gwariant a sefydlwyd ar gyfer Swyddfa'r Llywydd.

**Paragraff 19.25** – byddai'r paragraff hwn yn galluogi Swyddfa'r Llywydd, drwy aelod o Bwyllgor y T, i ymgymryd ag unrhyw un o'r trafodion a restrir yn y paragraff 19.16 newydd. Byddai Swyddfa'r Llywydd, fe rheol, wedi hysbysu'r Cynulliad o'r bwriad i gynnal trafodion o'r fath.

**ATODIAD E3**

**RHEOL SEFYDLOG 19 - Gweithdrefnau Cyllid (Gwelliant 7)**

**Penderfynu Cyllideb Swyddfa'r Llywydd**

19. 00 Ym mhob blwyddyn ariannol, erbyn 20 Medi fan bellaf, bydd Pwyllgor y T yn ystyried y gyllideb ar gyfer Swyddfa'r Llywydd. Yn sgil trafod rhwng y Llywydd, y Clerc a'r Ysgrifennydd Cyllid, bydd aelod o Bwyllgor y T yn gosod cyllideb ddrafft ar gyfer Swyddfa'r Llywydd, erbyn 1 Hydref fan bellaf. Ar yr un pryd, bydd yr aelod o Bwyllgor y T yn cyflwyno cynnig bod y gyllideb ddrafft yn cael ei mabwysiadu. Dylai'r gyllideb ddrafft ymdrin fel rheol â'r flwyddyn ariannol ddilynol a'r dyraniadau dros dro ar gyfer y ddwy flynedd wedyn, neu am gyfnod sy'n briodol ym marn yr Ysgrifennydd Cyllid. Ni fydd y cynnig bod y gyllideb ddrafft yn cael ei mabwysiadu yn destun gwelliannau a rhaid ei ddadlau erbyn 10 Hydref fan bellaf. Os caiff y cynnig ei fabwysiadu, dylai'r gyllideb honno ddod yn gyllideb derfynol ar gyfer Swyddfa'r Llywydd a chaiff ei hymgorffori fel y cyfryw yng nghyllideb ddrafft a chyllideb derfynol y Cynulliad.

**Penderfynu Cyllid y Cynulliad**

19.1 Yn ystod pob blwyddyn ariannol, bydd Ysgrifennydd Cyllid y Cynulliad yn gwahodd pwyllgorau pwnc i gyflwyno sylwadau, fel rheol erbyn dyddiad o leiaf 8 wythnos ar ôl dyddiad y gwahoddiad ac erbyn 31 Gorffennaf fan bellaf, ar flaenoriaethau gwariant y Cynulliad yn ystod y tair blynedd ariannol ddilynol, neu am gyfnod y mae Ysgrifennydd Cyllid y Cynulliad yn barnu

ei fod yn briodol.

19.2 Fel rheol, ym mis Hydref mewn unrhyw flwyddyn, a, sut bynnag, erbyn 15 Tachwedd fan bellaf, bydd Ysgrifennydd Cyllid y Cynulliad yn cyflwyno cyllideb ddrafft. Ar yr un pryd, bydd Ysgrifennydd Cyllid y Cynulliad yn cyflwyno cynnig bod y Cynulliad yn nodi'r gyllideb ddrafft. Bydd y gyllideb ddrafft yn nodi dyraniad arfaethedig adnoddau'r Cynulliad ar gyfer y flwyddyn ariannol ddilynol a'r dyraniadau dros dro ar gyfer y ddwy flynedd wedi hynny, neu am gyfnod y mae Ysgrifennydd Cyllid y Cynulliad yn barnu ei fod yn briodol. Cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl i'r Cynulliad nodi'r gyllideb ddrafft, bydd pob Ysgrifennydd Cynulliad sy'n aelod o bwyllgor pwnc yn gwahodd ei sylwadau ar y gyllideb ddrafft ac yn eu trosglwyddo i Ysgrifennydd Cyllid y Cynulliad.

19.3 Fel rheol, y mis Tachwedd hwnnw, a, sut bynnag, erbyn 10 Rhagfyr fan bellaf, bydd Ysgrifennydd Cyllid y Cynulliad yn cyflwyno cyllideb derfynol a fydd ar gyfer yr un cyfnod â'r gyllideb ddrafft o dan baragraff 19.2. Ar yr un pryd, bydd Ysgrifennydd Cyllid y Cynulliad yn cyflwyno cynnig bod y gyllideb derfynol yn cael ei mabwysiadu. Ni fydd modd cynnig gwelliant i gynnig bod y gyllideb derfynol yn cael ei mabwysiadu.

19.4 Ar ôl i'r gyllideb derfynol gael ei mabwysiadu, ond cyn 1 Ebrill yn y flwyddyn ddilynol, caiff Ysgrifennydd Cyllid y Cynulliad gyflwyno cyllideb atodol sy'n nodi newidiadau i'r gyllideb derfynol honno sy'n deillio o newidiadau i gynlluniau gwariant Llywodraeth y DU neu newidiadau technegol eraill sy'n ymwneud â'r gyllideb. Ar yr un pryd, bydd Ysgrifennydd Cyllid y Cynulliad yn cyflwyno cynnig bod y gyllideb atodol yn cael ei mabwysiadu. Ni fydd modd cynnig gwelliant i gynnig bod cyllideb atodol yn cael ei mabwysiadu.

**<u>Addasiadau i Gyllideb y Cynulliad yn ystod y Flwyddyn</u>**

**<u>Newidiadau i'r Prif Grwpiau Gwariant</u>**

19.5 Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau paragraff 19.5A, ac eithrio mewn achosion brys, ni fydd unrhyw newid, yn ystod blwyddyn ariannol, i lefel yr adnoddau a ddyrennir i brif grp gwariant yn y gyllideb derfynol neu mewn cyllideb atodol a fabwysiedir o dan baragraff 19.3 neu, yn ôl y galw, 19.4, gan gynnwys sefydlu prif grp gwariant newydd, ond yn cael ei wneud drwy gynnig a gyflwynir gan Ysgrifennydd Cyllid y Cynulliad. Ni fydd modd cynnig gwelliant i unrhyw gynnig o'r fath. Mewn achosion brys, caiff Ysgrifennydd Cyllid y Cynulliad newid lefel yr adnoddau a ddyrennir i unrhyw brif grp gwariant, neu sefydlu prif grp gwariant newydd, ond, mewn unrhyw achos o'r fath, bydd Ysgrifennydd Cyllid y Cynulliad yn gadael i'r Cynulliad wybod, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, am y camau a gymerwyd.

19.5A Ac eithrio mewn achosion brys, dim ond drwy gynnig a gynigir gan aelod o Bwyllgor y T y gwneir unrhyw newid yn ystod y flwyddyn ariannol yn lefel yr adnoddau a ddyrennir i'r prif grwp gwariant a sefydlwyd ar gyfer Swyddfa'r Llywydd yn y gyllideb derfynol a fabwysiadwyd o dan baragraff 19.00. Ni fydd unrhyw gynnig o'r fath yn destun gwelliannau. Mewn achosion brys, yn ddarostyngedig i baragraff 19.5B, caiff y Clerc newid lefel yr adnoddau a ddyrennir i'r grwp gwariant hwn ond, mewn achos o'r fath, a bydd aelod o Bwyllgor y T yn rhoi gwybod i'r Cynulliad am y camau a gymerwyd cyn gynted ag y bydd yn rhesymol ymarferol.

19.5B Rhaid i unrhyw newid a gynigir gan y Clerc mewn blwyddyn ariannol yn lefel yr adnoddau a ddyrennir i'r prif grp gwariant a sefydlwyd ar gyfer Swyddfa'r Llywydd gael ei drafod yn gyntaf gyda'r Llywydd a Phwyllgor y T ac wedyn gydag Ysgrifennydd Cyllid y Cynulliad. Rhaid cynnal trafodaethau o'r fath hefyd cyn i'r Clerc, mewn achosion brys, newid lefel yr adnoddau a ddyrennir i'r prif grwp gwariant hwn.

19.6 Yn ddarostyngedig i'r darpariaethau ym mharagraff 19.7A, yn ystod blwyddyn ariannol, caiff Ysgrifennydd Cynulliad, gyda chytundeb Ysgrifennydd Cyllid y Cynulliad, gymeradwyo trosglwyddo adnoddau o fewn prif grp gwariant rhwng ac o fewn dyraniadau ariannol ar gyfer meysydd y mae'r Ysgrifennydd Cynulliad hwnnw'n gyfrifol amdanynt. Lle y byddai'r trosglwyddo arfaethedig yn newid y dyraniadau yn y gyllideb derfynol neu mewn cyllideb atodol a fabwysiedir o dan baragraff 19.3 neu, yn ôl y galw, 19.4, bydd yr Ysgrifennydd Cynulliad yn ymgynghori â'r pwyllgor pwnc perthnasol yn ei gylch, ac eithrio mewn achosion brys; os na fydd modd ymgynghori, bydd yr Ysgrifennydd Cynulliad yn gadael i'r pwyllgor wybod, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, am y camau a gymerwyd.

19.7 Yn ystod y flwyddyn ariannol, caiff Ysgrifennydd Cyllid y Cynulliad gymeradwyo trosglwyddo adnoddau o fewn prif grp gwariant a rhwng dyraniadau ariannol ar gyfer meysydd y mae gwahanol Ysgrifenyddion Cynulliad yn gyfrifol amdanynt. Lle y byddai'r trosglwyddo arfaethedig yn newid y dyraniadau yn y gyllideb derfynol, neu mewn cyllideb atodol a fabwysiedir o dan baragraff 19.3 neu, yn ôl y galw, 19.4, bydd yr Ysgrifennydd Cynulliad priodol yn ymgynghori â'r pwyllgorau pwnc perthnasol ar y trosglwyddo arfaethedig, ac eithrio mewn achosion brys; os na fydd modd ymgynghori, byddant yn gadael i'r pwyllgorau

wybod cyn gynted ag y bo’n rhesymol ymarferol am y camau a gymerwyd.

19.7A Ni fydd darpariaethau paragraffau 19.6 a 19.7 yn gymwys ar gyfer y prif grwp gwariant a sefydlwyd ar gyfer Swyddfa’r Llywydd. Yn ystod blwyddyn ariannol, caiff Clerc y Cynulliad, ar ôl ymgynghori â’r Llywydd a Phwyllgor y T, ac ar ôl hysbysu Ysgrifennydd Cyllid y Cynulliad, gymeradwyo trosglwyddo adnoddau o fewn y prif grwp gwariant a sefydlwyd ar gyfer Swyddfa’r Llywydd, rhwng y dyraniadau ariannol o fewn y prif grp gwariant ac o’u mewn.

**Adroddiadau Cyllid Llywodraeth Leol**

19.8 Caiff yr adroddiadau y sonnir amdanynt yn y paragraff hwn eu gwneud drwy gael eu cymeradwyo drwy benderfyniad gan y Cynulliad:

(i) adroddiad cyllid llywodraeth leol o dan adran 78A o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 ("Deddf 1988");

(ii) adroddiad diwygiol o dan adran 84A o Ddeddf 1988, neu o dan baragraff 13 o Atodlen 8 i’r Ddeddf honno;

(iii) adroddiad grant ychwanegol o dan adran 85 o Ddeddf 1988;

(iv) adroddiad grant ychwanegol o dan adran 88B o Ddeddf 1988.

19.9 Pryd bynnag y caiff cyllideb derfynol ei chyflwyno o dan baragraff 19.3, bydd yr Ysgrifennydd Cynulliad sy’n gyfrifol am gyllid llywodraeth leol, ar yr un pryd neu cyn gynted ag y bo’n rhesymol ymarferol wedi hynny, yn cyflwyno drafft o adroddiad cyllid llywodraeth leol ar gyfer y flwyddyn ariannol ddilynol. Bydd yr Ysgrifennydd Cynulliad sy’n gyfrifol am gyllid llywodraeth leol yn cyflwyno’r adroddiad ar ei ffurf derfynol gerbron y Cynulliad erbyn 15 Chwefror fan bellaf mewn unrhyw flwyddyn a bydd ar yr un pryd yn cyflwyno cynnig bod yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo.

19.10 Ni fydd modd cynnig gwelliant i gynnig bod unrhyw adroddiad y cyfeirir ato ym mharagraff 19.8 yn cael ei gymeradwyo.

**Cyhoeddi Cyfrifon ac Adroddiadau**

19.11 Caiff y Llywydd drefnu cyhoeddi ar unrhyw ddiwrnod gwaith unrhyw ddogfennau y mae adran 103(2) o’r Ddeddf yn gymwys iddynt, hyd yn oed os nad yw’r Cynulliad yn cyfarfod mewn sesiwn llawn y diwrnod hwnnw.

19.12 Pan fydd yn ofynnol i’r Cynulliad o dan adran 45 o’r Ddeddf gyhoeddi adroddiad a osodwyd ger ei fron ynghylch unrhyw gorff cyhoeddus, a phan fydd yr adroddiad hwnnw yn cynnwys cyfrifon archwiliedig y corff, barn yr archwilwyr ac unrhyw adroddiad a wnaethpwyd ar y cyfrifon gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, bernir bod y cyhoeddiad hwnnw hefyd yn bodloni unrhyw ofynion yngln â chyhoeddi a gynhwysir yn adran 103 o’r Ddeddf.

19.13 Rhaid i Ysgrifennydd Cynulliad sy'n bwriadu awdurdodi Trafodiad Hysbysadwy, sef:

(i) gwneud rhodd y mae paragraff 19.17 yn gymwys iddo;

(ii) tynnu atebolrwydd mae paragraff 19.18 yn gymwys iddo neu;

(iii) gollwng benthyciad mae paragraff 19.19 yn gymwys iddo;

osod gerbron y Cynulliad cyn gwneud hynny ddatganiad yn cynnwys yr wybodaeth a bennir ym mharagraff 19.20. Pan fydd datganiad felly wedi'i osod, ni chaiff yr Ysgrifennydd Cynulliad awdurdodi Trafodiad Hysbysadwy nes y bydd 10 diwrnod gwaith wedi mynd heibio ers i'r datganiad gael ei osod.

19.14 Os bydd o leiaf 10 Aelod, cyn pen y cyfnod o 10 diwrnod gwaith y cyfeirir ato ym mharagraff 19.15, yn cyflwyno Hysbysiad yn gofyn i'r Ysgrifennydd Cynulliad geisio cymeradwyaeth y Cynulliad ar gyfer y Trafodiad Hysbysadwy, yna bydd yr Ysgrifennydd Cynulliad yn cyflwyno cynnig yn gofyn am gymeradwyaeth y Cynulliad i'r Trafodiad Hysbysadwy ac ni chaiff yr Ysgrifennydd Cynulliad awdurdodi'r Trafodiad nes bod y gymeradwyaeth honno wedi'i rhoi.

19.15 (i) Rhodd y mae'r paragraff hwn yn gymwys iddo yw un:
a) y mae ei werth o dros £100,000 neu;
b) sydd â nodweddion (boed o ran ei disgrifiad neu'n gyffredinol) neu sy'n cael ei wneud o dan amgylchiadau (boed drwy

gyfeiriad at y sawl y bwriedir gwneud y rhodd iddo neu iddi neu'n gyffredinol) sy'n sylweddol wahanol i'r rhai sy'n perthyn i roddion a wneir fel arfer gan gyrff cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig.

(ii) At ddibenion y paragraff hwn mae rhodd yn cynnwys benthyciad am amser amhenodedig neu fenthyciad am gyfnod sy'n gyfartal ag oes ddefnyddiol ddisgwyliedig yr ased, neu'n fwy na hynny, ac unrhyw drafodiad sy'n golygu cael gwared ar ased am lai na'i werth llawn. Lle ceir gwared ar ased am lai na'i werth llawn, cymerir mai'r gwahaniaeth rhwng ei werth llawn a swm unrhyw bris y bwriedir ei dalu amdano yw gwerth y rhodd.

19.16 Mae atebolrwydd y mae'r paragraff hwn yn gymwys iddo yn atebolrwydd amodol neu gyflawnedig a allai fynd dros £100,000, o dan warant, indemniad, llythyr neu ddatganiad o gysur neu drefniant arall â'r un effaith neu effaith debyg ond nad yw'n cynnwys ymrwymiad contractiol i wneud taliadau yn y dyfodol o dan gontract a ymrwymwyd iddo yn nhrefn arferol cyflawni swyddogaethau'r Cynulliad nac ymrwymiad i wneud taliadau grant o dan gynllun grant statudol.

19.17 Gollyngiad benthyciad y mae'r paragraff hwn yn gymwys iddo yw gollwng, yn llwyr neu'n rhannol, rwymedigaeth i ad-dalu neu i ddychwelyd arian neu eiddo arall a fenthyciwyd gan y Cynulliad, ar yr amod mai lleihau mwy na £20 miliwn ar yr atebolrwydd i'r Cynulliad yw effaith y gollyngiad

19.18 a) Bydd y datganiad a osodir gerbron y Cynulliad o dan baragraff 19.15 yn cynnwys y wybodaeth ganlynol:

(i) os bydd yn ymwneud â rhodd, natur a gwerth y rhodd, yr amgylchiadau y bwriedir ei roi odanynt, y derbynnydd ac, os bydd angen amnewid, cost a natur yr amnewidiad a phryd y disgwilir cael yr amnewidiad;

(ii) os bydd yn ymwneud â thynnu atebolrwydd, amcangyfrif o faint yr atebolrwydd ac am faint y disgwylir iddo barhau, y rheswm dros dynnu'r atebolrwydd, y corff neu'r cyrff o dan sylw;

(iii) os bydd yn ymwneud â gollwng benthyciad, y person neu'r corff a fydd yn elwa ar y gollyngiad, yr amgylchiadau y gwnaed y benthyciad odanynt, y rhesymau dros ollwng y benthyciad a'r swm y bwriedir ei ollwng.

b) Bydd y datganiad yn cynnwys, yn ychwanegol at yr wybodaeth a bennir uchod, unrhyw wybodaeth berthnasol arall y bydd ei hangen i'w gwneud yn bosibl I ddeall amgylchiadau'r Trafodiad Hysbysadwy.

19.19 Bydd Ysgrifennydd Cynulliad sydd ar unrhyw adeg yn dod i wybod:

(i) nad yw'r wybodaeth a roddwyd mewn datganiad a osodwyd gerbron y Cynulliad o dan baragraff 19.15, neu ddatganiad atodol a osodwyd o dan y paragraff hwn, yn gywir mwyach i radd sylweddol, neu;

(ii) bod atebolrwydd a oedd yn amodol pan osodwyd datganiad wedi dod yn atebolrwydd cyflawnedig:

yn gosod datganiad atodol gerbron y Cynulliad yn esbonio ac yn cywiro'r anghywirdeb neu'n disgrifio'r amgylchiadau y daeth yr atebolrwydd yn gyflawnedig odanynt. Os bydd o leiaf 10 Aelod, cyn pen y cyfnod o 10 diwrnod gwaith ar ôl gosod y datganiad atodol, yn cyflwyno cynnig sy'n gofyn i'r Ysgrifennydd Cynulliad wneud datganiad llafar i'r Cynulliad i esbonio'r amgylchiadau a'i gwnaeth yn ofynnol gosod y datganiad atodol, bydd yr Ysgrifennydd Cynulliad yn gwneud y datganiad hwnnw mor fuan â phosibl a bydd yn ateb cwestiynau'r Aelodau ar y datganiad hwnnw.

19.20 Caiff Ysgrifennydd Cynulliad, lle bo angen brys, awdurdodi Trafodiad Hysbysadwy sy'n dod o fewn paragraff 19.18 heb gydymffurfio yn gyntaf a pharagraffau 19.15 a 19.16 ond bydd yn gwneud datganiad llafar i'r Cynulliad mor fuan a phosibl ac yn ateb cwestiynau Aelodau ar y datganiad hwnnw.

19.21 Ni fydd y ffaith bod Trafodiad Hysbysadwy sy'n dod o fewn paragraff 19.18 wedi ei gyflawni heb gydymffurfio yn gyntaf â pharagraffau 19.15 a 19.16 uchod ynddi'i hun yn effeithio ar hawliau'r person y mae'r atebolrwydd posibl yn ddyledus iddo.

19.22 Bydd darpariaethau paragraffau 19.13 i 19.21 yn gymwys pan fydd y Llywydd yn awdurdodi Trafodiad Hysbysadwy, gan osod cyfeiriadau at "aelod o Bwyllgor y T" yn lle cyfeiriadau at "Ysgrifennydd Cynulliad".